Adroddiad ansawdd

# Mesurau gofal llygaid ar gyfer cleifion allanol y GIG

## Beth yw'r ystadegau hyn?

Cynlluniwyd y mesurau gofal llygaid ar gyfer cleifion allanol y GIG er mwyn darparu fframwaith ar gyfer cleifion offthalmoleg newydd a dilynol, yn seiliedig ar flaenoriaeth a brys y gofal sy'n ofynnol gan bob claf ac fe'u nodir yn ychwanegol at yr amseroedd aros Atgyfeiriad i Driniaeth cyfredol. Prif fwriad y mesurau yw sicrhau:

- Y pennir amser aros hiraf i bob unigolyn a atgyfeirir i'r ysbyty ar gyfer offthalmoleg sy'n seiliedig ar asesiad clinigol o'u cyflwr a'u llesiant; ac
- Y bydd pob claf offthalmoleg sydd angen adolygiad neu driniaeth barhaus reolaidd yn cael ei weld o fewn cyfnodau a ddynodir yn glinigol, sydd hefyd yn seiliedig ar eu cyflwr a'u llesiant, a dylid eu hadolygu ym mhob apwyntiad.

Mae'r mesurau gofal llygaid ar gyfer cleifion allanol y GIG, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol Cymru (BILl) o Ebrill 2019 yn dangos:

- Cyfanswm nifer y llwybrau cleifion opthalmoleg newydd a dilynol sydd wedi’u haeseu fel rhai y mae risg iddynt gael niwed na ellir ei ddad-wneud neu ganlyniad andwyol sylweddol pe bai eu dyddiad targed yn cael ei fethu (Ffactor Risg Iechyd R1) sy’n aros am apwyntiad claf allanol.
- Cyfanswm nifer y llwybrau cleifion opthalmoleg newydd a dilynol sydd wedi’u haeseu fel rhai y mae risg iddynt gael niwed na ellir ei ddad-wneud neu ganlyniad andwyol sylweddol pe bai eu dyddiad targed yn cael ei fethu (Ffactor Risg Iechyd R1) sy’n aros o fewn eu dyddiad targed neu o fewn 25% y tu hwnt i’w dyddiad targed.

Yn ogystal, o fis Ebrill 2020:

- Cyfanswm nifer yr apwyntiadau offthalmoleg newydd a dilynol a fynychwyd, lle’r oedd asesiad o’r claf wedi nodi y byddai risg iddo gael niwed na ellir ei ddadwneud neu ganlyniad andwyol sylweddol pe bai ei ddyddiad targed yn cael ei fethu (Ffactor Risg Iechyd R1).
- Nifer a chanran yr apwyntiadau offthalmoleg newydd a dilynol a fynychwyd, lle’r oedd asesiad o’r claf wedi nodi y byddai risg iddo gael niwed na ellir ei dadwneud neu ganlyniad andwyol sylweddol pe bai ei ddyddiad targed yn cael ei fethu (Ffactor Risg Iechyd R1), ac roedd y claf wedi aros o fewn ei ddyddiad targed neu o fewn 25% y tu hwnt i’w ddyddiad targed.

## Diffiniadau

**Ffactor Risg Iechyd:** y risg o niwed sy'n gysylltiedig â chyflwr llygaid y claf os methir dyddiad yr adolygiad targed. Dyma'r categorïau:

> R1 – risg o niwed na ellir ei ddad-wneud neu ganlyniad anffafriol sylweddol i'r claf oni welir y claf erbyn y dyddiad targed.
>
> R2 – risg o niwed y gellid ei ddad-wneud neu ganlyniad andwyol oni welir y claf erbyn y dyddiad targed.
>
> R3 – dim risg o niwed sylweddol neu ganlyniad andwyol.

**Dyddiad targed:** yr amser aros hiraf a benderfynir yn glinigol yn dilyn atgyfeiriad ar gyfer apwyntiad claf allanol newydd neu ddilynol sy'n unol â chanllawiau cenedlaethol sy'n benodol i'r cyflwr. Caiff dyddiadau targed cleifion eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth ac maent wedi'u seilio ar faint o frys sydd. Bydd unrhyw glaf sy'n methu ei ddyddiad targed ar gyfer apwyntiad claf allanol yn cael ei weld yn nhrefn blaenoriaeth ar draws pob cyflwr.

**Aros o fewn y dyddiad targed:** dyma nifer y llwybrau cleifion offthalmoleg allanol dilynol sydd ar eu dyddiad targed neu o fewn eu dyddiad targed ar ddiwedd y mis.

**Aros o fewn 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed:** dyma nifer y llwybrau cleifion ophthalmeg allanol sydd hyd at 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed ar ddiwedd y mis.

**Wedi aros o fewn y dyddiad targed**: dyma nifer yr apwyntiadau offthalmoleg newydd a dilynol a fynychwyd, lle'r oedd y claf wedi aros tan neu o fewn ei ddyddiad targed yn ystod y mis.

**Wedi aros o fewn 25% y tu hwnt i'r dyddiad targed:** dyma nifer yr apwyntiadau offthalmoleg newydd a dilynol a fynychwyd lle'r oedd y claf wedi aros hyd at 25% y tu hwnt i'w ddyddiad targed yn ystod y mis.

## Defnyddwyr a defnydd

Mae dealltwriaeth o'r tueddiadau o ran amseroedd aros a chanlyniadau cleifion mewn offthalmoleg yn hanfodol i'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio a phenderfynu ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol.

Rydym yn credu y defnyddir yr ystadegau hyn yn bennaf gan:

- weinidogion a'u cynghorwyr
- Aelodau'r Cynulliad a gwasanaeth ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
- swyddogion o fewn Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
- GIG Cymru
- myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- meysydd eraill yn Llywodraeth Cymru

- adrannau eraill y Llywodraeth
- y cyfryngau
- dinasyddion unigol.

Defnyddir yr ystadegau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae rhai enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- asesu'r effaith y mae cyflwyno'r fframwaith gofal llygaid wedi'i gael o ran helpu pobl yng Nghymru sydd â phroblem o ran gofal llygaid
- darparu cyngor i Weinidogion a briffio ar y perfformiad diweddaraf ar draws Cymru yn erbyn targedau Fframwaith Cyflawni'r GIG
- asesu, rheoli a monitro perfformiad GIG Cymru yn erbyn targedau
- llywio prosiectau gwella gwasanaethau ar gyfer meysydd ffocws a chyfleoedd ar gyfer gwella ansawdd
- gan fyrddau iechyd lleol y GIG, i'w meincnodi eu hunain yn erbyn byrddau iechyd lleol eraill
- i helpu i bennu'r gwasanaeth y gall y cyhoedd ei dderbyn gan GIG Cymru.

Os ydych yn ddefnyddiwr ac os nad ydych yn teimlo bod y rhestr uchod yn ddigonol, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â ni drwy **hss.performance@llyw.cymru.**

## Cryfderau a chyfyngiadau aata

### Cryfderau

- Mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i chyhoeddi yn fisol (ar StatsCymru ac mewn pennawd ar wefan Llywodraeth Cymru) mewn modd trefnus er hwylustod mynediad a defnydd.
- Mae gan yr allbynnau ffocws clir ar Gymru ac maent wedi'u datblygu i ddiwallu anghenion defnyddwyr mewnol ac allanol yng Nghymru. Darperir gwybodaeth gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Cyhoeddir ffigurau a chanrannau.
- Mae'r data yn galluogi defnyddwyr i asesu'r effaith y mae'r fframwaith gofal llygaid yn ei gael ar iechyd pobl yng Nghymru.

### Cyfyngiadau

- Mae gwybodaeth StatsCymru wedi'i bwriadu ar gyfer cynulleidfa fwy hyddysg, heb fawr o esboniad i alluogi defnyddwyr eraill i ddehongli'r data'n briodol. Rydym yn annog defnyddwyr i gysylltu â'r Adroddiad Ansawdd/pennawd hwn er mwyn cael mwy o gefndir.
- Nid oes data wedi'i fapio.
- Oherwydd y gweinyddiaethau datganoledig a'r gwahaniaethau o ran polisïau a deddfwriaeth, mae llai o gyfle i gymharu'n uniongyrchol â rhannau eraill o'r DU.
- Ychydig o sylwebaeth sydd yn y prif ddata misol.
- Ni chaiff data gofal sylfaenol ei gipio o fewn y set ddata.

## Y Cylch Prosesu Data

### Casglu data

Mae Is-adran Cyflawni a Pherfformio Llywodraeth Cymru yn derbyn ffurflenni monitro Mesur Gofal Llygaid gan bob un o'r BILlau. Mae safonau sy'n ymwneud â'r ffurflenni hyn wedi cael eu hadolygu a'u pasio gan Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru (WISB) a'r Grŵp Hysbysu Newid Safonau Data (DSCN).

### Dilysu a gwirio

Mae'r Is-adran Cyflawni a Pherfformio yn lanlwytho'r data a dderbynnir bob mis. Mae'r system prosesu data a ddefnyddir yn sicrhau nad oes data ar goll o'r ffurflenni. Yna gwneir gwiriadau dilysu a gwirio yn fisol, gan gynnwys, er enghraifft, gwirio tueddiadau yn y data ac unrhyw ostyngiadau sylweddol mewn perfformiad yn erbyn targed Fframwaith Cyflawni'r GIG. Nodir unrhyw annormaleddau yn y data a chânt eu codi wedyn gyda'r BILlau, gan alluogi byrddau iechyd lleol i wirio, cywiro neu roi sylwadau ar eu data a darparu gwybodaeth ynghylch y cyd-destun lle bo'n berthnasol.

### Cyhoeddi a diwygio

Cynhyrchir yr ystadegau a gyhoeddir gan yr Is-adran Cyflawni a Pherfformio drwy grynhoi'r wybodaeth a ddarperir gan y BILlau.

Bob mis byddwn yn cyhoeddi pennawd html cryno ar ein gwefan sy'n darparu dolen i dablau StatsCymru a'r adroddiad ansawdd hwn. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn StatsCymru yn cael ei chynhyrchu drwy broses sydd wedi'i awtomeiddio.

Cyhoeddir y data ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf (12 mis - Ebrill i Fawrth) fel ffigurau dros dro a gellir ei ddiwygio mewn diweddariadau wedi hynny. Mae hyn er mwyn galluogi BILlau i gyflwyno data diwygiedig os ydyn nhw'n gwneud gwaith dilysu pellach.

Pe digwydd i ddata anghywir gael ei gyhoeddi, er bod hynny'n annhebygol, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud a byddai defnyddwyr yn cael eu hysbysu yn unol â'n trefniadau **diwygiadau, camgymeriadau a gohiriadau**.

### Datgelu a chyfrinachedd

Yn dilyn ein hasesiad risg o ddatgelu, credwn fod y tebygolrwydd o adnabod claf unigol o'r data a gyhoeddwn yn isel iawn, heb fod gwybodaeth arall am y claf eisoes yn hysbys. Felly nid yw gwerthoedd bach wedi'u hatal.

Rydym yn cadw at y **datganiad ar gyfrinachedd a mynediad at ddata**, a gyhoeddwyd i gydymffurfio â'r gofynion a nodir mewn Egwyddor yn y **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

## Ansawdd

Mae'r Is-adran Cyflawni a Pherfformio yn glynu wrth **strategaeth ansawdd** ac mae hyn yn unol ag Egwyddor 4 **y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Yn benodol, mae'r rhestr isod yn rhoi manylion am chwe dimensiwn y System Ystadegol Ewropeaidd a sut rydym yn glynu wrthyn nhw:

### Perthnasedd

Y graddau mae'r cynnyrch ystadegol yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr o ran cwmpas a chynnwys.

Defnyddir yr ystadegau fel mesur perfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru ac maent yn cyfrannu at asesu'r effaith y mae cyflwyno'r fframwaith gofal llygaid wedi'i gael o ran helpu'r bobl yng Nghymru sydd â phroblemau gyda'u llygaid. Mae diddordeb yn y data hwn a'r defnydd a wneir ohono at ddibenion eraill wedi'i amlinellu uchod.

Rydym yn annog defnyddwyr yr ystadegau i gysylltu â ni i roi gwybod i ni sut maen nhw'n defnyddio'r data. Ni fyddai'n bosibl darparu tablau i ddiwallu holl anghenion defnyddwyr, ond mae'r tablau a gyhoeddir ar StatsCymru yn anelu at ateb cwestiynau cyffredin.

Rydym yn ymgynghori â defnyddwyr allweddol cyn gwneud newidiadau, a lle y bo'n bosibl, yn rhoi cyhoeddusrwydd i newidiadau ar y rhyngrwyd, mewn pwyllgorau a rhwydweithiau eraill er mwyn ymgynghori â defnyddwyr yn ehangach. Ein nod yw ymateb yn gyflym i newidiadau polisi er mwyn sicrhau bod ystadegau yn parhau i fod yn berthnasol.

### Cywirdeb

Pa mor agos yw canlyniad a amcangyfrifir at wir werth (anhysbys).

Gellir rhannu cywirdeb yn ôl gwallau sydd yn ymwneud â samplu a rhai na wnelont ddim â samplu. Mae gwall nad yw'n ymwneud â samplu yn cynnwys meysydd fel gwall cwmpas, gwall diffyg ymateb, gwall mesur a gwall prosesu.

Mae hwn yn gasgliad data sefydledig sy'n seiliedig ar ddata 100% h.y. nid sampl mohono.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd, gall pob BILI ddarparu data ac felly nid oes angen amcangyfrif o'r ffigurau. Lle defnyddir amcangyfrifon, am nad yw BILI yn gallu cyflenwi data ar gyfer mis penodol, amlinellir hyn yn glir yn y data.

Dydyn ni ddim wedi ymchwilio i gamgymeriadau nad ydynt yn ymwneud â samplu eto. Fodd bynnag, gallai gwallau prosesu ddigwydd lle mae clercod mewn ysbytai yn mewnbynnu data yn anghywir i'w system weinyddol a gallai gwallau mesur ddigwydd am fod staff mewn ysbytai â dehongliadau gwahanol o ddiffiniadau. Er mwyn lleihau gwallau nad ydynt yn ymwneud â samplu, darperir safonau a chanllawiau ar gyfer pob ffurflen ddata er mwyn ceisio sicrhau bod BILlau yn cyflwyno gwybodaeth yn unol â'r diffiniadau a'r fanyleb y cytunwyd arnynt. Mae'r safonau sy'n ymwneud â'r casgliad data hwn wedi cael eu hadolygu a'u pasio gan **Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru**. Lle mae gwallau nad ydynt yn ymwneud â samplu yn effeithio ar

y data, rydym yn darparu gwybodaeth lawn i ddefnyddwyr i'w galluogi i lunio barn wybodus ar ansawdd yr ystadegau, yn enwedig os oes cyfyngiadau.

Mae pob un o'n hallbynnau yn cynnwys gwybodaeth am gwmpas, amseru a daearyddiaeth.

Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd wedi eu sefydlu i ddeall ac esbonio symudiadau yn y data ac i wirio bod y system gyfrifiadurol yn cyfrifo'r ystadegau cyhoeddedig yn gywir.

Pe digwydd i ddata anghywir gael ei gyhoeddi, er bod hynny'n annhebygol, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud a byddai defnyddwyr yn cael eu hysbysu yn unol â'n trefniadau **diwygiadau, camgymeriadau a gohiriadau**.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Mae amseroldeb yn cyfeirio at faint o amser sydd wedi mynd heibio ar adeg cyhoeddi'r data ers y cyfnod y mae'r data yn cyfeirio ato. Mae prydlondeb yn cyfeirio at y bwlch amser rhwng y dyddiad cyhoeddi gwirioneddol a'r dyddiad y cynlluniwyd iddo gael ei gyhoeddi.

Mae'r holl allbynnau yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer drwy rag-gyhoeddi'r dyddiad cyhoeddi drwy **calendr y dyfodol**. At hynny, pe cyfyd yr angen i ohirio allbwn, byddai hyn yn dilyn ein trefniadau **diwygiadau, gwallau a gohiriadau**.

Rydym yn cyhoeddi data cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob mis ac yn unol ag anghenion defnyddwyr.

## Hygyrchedd ac eglurder

Hygyrchedd yw pa mor hawdd y gall y defnyddwyr gael gafael ar y data, gan adlewyrchu'r fformat y darperir y data a'r wybodaeth ategol sydd ar gael. Mae eglurder yn cyfeirio at ansawdd a digonolrwydd y metadata, yr eglurebau a'r cyngor cysylltiedig.

Cyhoeddir yr ystadegau yn fisol fel pennawd ar ein gwefan ac ar StatsCymru mewn modd hygyrch, trefnus, sydd wedi'i gyhoeddi ymlaen llaw ar wefan Llywodraeth Cymru am 9:30am ar y diwrnod cyhoeddi. Mae ffrwd RSS yn hysbysu defnyddwyr cofrestredig pan y'i cyhoeddir. Ar yr un pryd, cyhoeddir y penawdau ar y Hyb Cyhoeddi Ystadegau Gwladol. Rydym hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r allbynnau ar **Twitter**. Mae'r holl allbwn ar gael i'w lawrlwytho am ddim.

Mae data manwl ar gael ar yr un pryd â'r pennawd ar wefan StatsCymru a gellir ei ddefnyddio ar-lein neu ei lawrlwytho i daenlenni i'w defnyddio all-lein.

Ein nod yw defnyddio Cymraeg Clir yn ein hallbynnau ac maent yn glynu wrth **bolisi hygyrchedd** Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, cyhoeddir ein holl benawdau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ystadegau drwy gysylltu â'r staff perthnasol a nodir ar y pennawd neu drwy **hss.performance@llyw.cymru.**

### Cymaroldeb

Y graddau y gellir cytuno ar ddata o ran amser a maes.

Lle y ceir rhybudd ymlaen llaw o newidiadau yn y dyfodol, bydd y rhain yn cael eu rhag-gyhoeddi yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru.

Mae'r safonau a'r diffiniadau y cytunwyd arnynt yng Nghymru yn rhoi sicrwydd bod y data yn gyson ar draws pob Bwrdd Iechyd Lleol.

### Cydlyniad

Y graddau y mae data sy'n deillio o ffynonellau neu ddulliau gwahanol, ond sy'n cyfeirio at yr un ffenomen, yn debyg.

Bob mis cesglir y data o'r un ffynonellau ac maent yn cadw at y safon genedlaethol. Lle ceir newidiadau o ran diffiniadau neu gwmpas, nodwn hyn yn glir ar y dudalen bennawd gan ychwanegu cafeatau priodol at y data.

## Lledaenu

Mae'r holl ddata o ansawdd digonol yn dilyn y gwirio a amlinellir uchod i gyfiawnhau ei gyhoeddi. Mae'r holl ddata gwirioneddol a ddarparwyd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan ryngweithiol **stats.llyw.cymru**.

## Gwerthuso

Anfonwch eich adborth ar yr ystadegau a'r adroddiad hwn ar ansawdd at **hss.performance@llyw.cymru**.

Cynhyrchwyd gan: Is-adran Cyflawni a Pherfformiad, Llywodraeth Cymru

Adolygwyd diwethaf: Medi 2025.